YR EGLWYS YNG NGHYMRU | THE CHURCH IN WALES

CORFF CYNRYCHIOLWYR YR EGLWYS YNG NGHYMRU
THE REPRESENTATIVE BODY OF THE CHURCH IN WALES

# CYFARWYDDYD AR REOLI PROSIECTAU LLAI

## Cyflwyniad

Mae Corff y Cynrychiolwyr eisoes wedi llunio canllawiau ar gyfer Cynghorau Plwyf Eglwysig[1] ar reoli prosiectau adeiladu eglwysig mewn nodyn cyfarwyddyd ar wahân, *Rheoli Prosiectau Adeiladau Eglwysig Mwy*[2]. Mae'r canllawiau hyn yn canolbwyntio ar brosiectau ad-drefnu neu atgyweirio ar raddfa fwy sy'n cynnwys ymgynghorwyr o'r tu allan a chyllid grant.

Dywedwyd y byddai plwyfi yn gwerthfawrogi canllawiau symlach i'w cynorthwyo wrth roi prosiectau llai ar waith, rhai nad ydynt o werth uchel neu'n cynnwys tîm mawr o gynghorwyr. Fodd bynnag, wrth reoli prosiect, mawr neu fach, rhaid cael dull cyffredin ac ystyried materion tebyg.

Mae'r nodyn yn ceisio crisialu'r materion hynny ar ffurf addas i brosiectau o'r fath. Mae'r nodyn yn mynd i'r afael â hyn gam wrth gam.

## Cam 1: Diffinio Gweledigaeth y Prosiect

Mae'n hanfodol bod yn glir ynglŷn â'ch prosiect. Gofynnwch '*Beth rydym ni am ei gyflawni a pham mae hynny'n bwysig?*' Bydd yr atebion yn llywio'r Weledigaeth sy'n werth ei nodi ar bapur (efallai fel cofnod gan y Cyngor Plwyf Eglwysig) fel bod cyfeirbwynt clir i'ch atgoffa wrth i chi barhau gyda'ch prosiect. Gall hyn ymddangos yn ormodol braidd ar gyfer prosiect bach, ond yn y bôn mae'n dangos hyd a lled y prosiect ac yn cadw pawb ar y trywydd iawn. Meddyliwch drwy'r amser sut bydd eich prosiect yn hybu cenhadaeth a gweinidogaeth yr eglwys.

## Cam 2: Ymgynghori

Gofalwch fod pawb sydd angen cyfrannu yn cael eu hysbysu. Yn amlwg, mae'n rhaid i'r Cyngor Plwyf Eglwysig fod yn hapus gyda'r cynigion, ond mae hefyd yn syniad treulio amser yn rhoi gwybod i eraill. Er enghraifft, y gynulleidfa, y gymuned leol, cymdogion, yr awdurdod lleol, ymwelwyr ac ati. Mae prosiectau yn llwyddo ac yn rhoi mwy o bleser pan fo pobl yn frwdfrydig ac yn gefnogol.

Dylai prosiectau sy'n gysylltiedig â'r adeilad gael eu cynnal gyda chyfranogiad pensaer neu syrfëwr priodol (y person a wnaeth yr Arolygiad Pum Mlynedd fel arfer). Mae'n syniad trafod unrhyw brosiect gyda'r person hwnnw gan y bydd ganddo brofiad gwerth chweil. Hefyd, bydd trafodaethau cynnar gydag Ysgrifennydd y Pwyllgor Cynghori Esgobaethol yn fuddiol i hwyluso'r broses hawlebau.

Os nad eich dyletswydd chi yw hyn, ymgynghorwch â Deon yr Ardal a'r Archddiacon mor fuan ag sy'n bosib.

[1] Defnyddir y term "Cyngor Plwyf Eglwysig" o fewn y ddogfen hon i ddisgrifio corff ymddiriedolwyr yr eglwys leol sy'n gyfrifol am reoli'r eglwys, y neuadd a'r fynwent. Gellir adnabod y cyrff hyn hefyd fel Cyngor yr Ardal Weinidogaeth, Cyngor yr Ardal Weinidogaeth Leol, Cyngor Bywoliaeth Reithorol, Cynhadledd Ardal Genhadaeth, neu unrhyw derm arall a ddynodir gan bolisïau'r esgobaeth.

[2] Cysylltwch â'r Adran Eiddo ar 20920 348200 neu property@churchinwales.org.uk am gopi.

## Cam 3: Ydy'r prosiect yn ymarferol?

Mae'n bwysig asesu pa mor ymarferol yw'r prosiect yn gynnar. Dyma'r broses o asesu agweddau amrywiol ar y prosiect er mwyn sicrhau ei fod yn ymarferol ac yn hyfyw. Dylai geisio nodi'r materion hollbwysig a fydd yn penderfynu a fydd y prosiect yn llwyddo neu'n methu. Gellir gwneud hyn drwy weithio trwy'r camau isod, cyn i chi ddechrau'r prosiect. Bydd hyn yn eich helpu i dynnu sylw at faterion sy'n codi am y prosiect a gwneud addasiadau yn unol â hynny.

## Cam 4: Penderfynu ar Gyfrifoldebau

Penderfynwch pwy sy'n mynd i fod yn gyfrifol am y prosiect. Dylai un person reoli pob prosiect ond gydag eraill yn cyfrannu. Nid yw prosiectau yn llwyddo os ydynt yn cael eu cynnal gan lawer o bobl heb ddiffiniad clir o bwy sy'n delio gyda beth. Dylai'r Cyngor Plwyf Eglwysig benderfynu pwy fydd yn rheoli'r prosiect a rhoi briff clir ac ysgrifenedig o'r cyfrifoldebau. Mae hyn yn galluogi'r Cyngor Plwyf Eglwysig i gael y lefel gywir o reolaeth ac osgoi ymyrraeth mewn manylion.

## Cam 5: Gofyn am Gyngor

Hyd yn oed gyda phrosiectau bach, mae'n syniad cael cyngor gan eraill. Gallant fod yn bobl yn eich cymuned sy'n gwybod rhywbeth am eich prosiect ac sy'n gallu rhoi cyngor. Efallai y bydd yr Archddiacon a Deon yr Ardal yn gwybod am brosiectau tebyg. Mae gofyn am gyngor yn eich galluogi i ddysgu o lwyddiannau a chamgymeriadau eraill.

## Cam 6: Sicrhau Cydsyniadau

Mae'n debyg y bydd angen cydsyniad rhywun ar gyfer pob prosiect. Bydd angen awdurdodi bron pob prosiect, ond bydd angen cydsyniad gan yr Awdurdod Lleol ar rai hefyd. Peidiwch â rhagdybio bod newidiadau dros dro neu rai bach yn cael eu heithrio o reidrwydd. Bydd trafod y prosiect gydag Ysgrifennydd Pwyllgor Ymgynghorol yr Esgobaeth a'r Archddiacon yn fan cychwyn da. Peidiwch â dechrau ar y gwaith cyn cael cydsyniad neu ganiatâd neu eich bod yn fodlon nad oes angen un.

## Cam 7: Dewis y Contractwr

Mae'n siŵr y bydd angen contractwr i wneud y gwaith neu i gyflenwi'r cynhyrchion sydd eu hangen arnoch. Mae'n demtasiwn defnyddio cyflenwyr lleol a dylid canmol ceisio cael adnoddau yn lleol. Fodd bynnag, dylech fod yn fodlon bod y cyflenwyr yn briodol drwy asesu eu profiad, eu polisïau a'u harferion iechyd a diogelwch a'u trefniadau hyfforddi a goruchwylio. Holwch a oes ganddynt yswiriant atebolrwydd cyhoeddus a chynnyrch priodol bob tro.

## Cam 8: Sicrhau'r Gwerth Gorau

Mae'n bwysig sicrhau eich bod cael y gwerth gorau ar gyfer eich prosiect. Mae'r pris rhataf yn fan cychwyn da, ond efallai y bydd gan bris uwch elfennau sy'n sicrhau mwy o werth (gwell deunyddiau, crefftwaith ac ati). Fe'ch cynghorir i ofyn am dri dyfynbris ar gyfer prosiect i ddangos eich bod wedi cael y gwerth gorau. Dydy hyn ddim bob amser yn hawdd, ond daliwch ati.

Nodwch yn ysgrifenedig yr hyn sy'n ofynnol o ran amserlen waith neu fanyleb yn cynnwys eich datganiad gweledigaeth. Mae hwn yn faes lle gall gwasanaethau ymgynghorwr fod yn fuddiol dros ben. Trwy gael manyleb ddiffiniedig byddwch yn cael prisiau y gellir eu cymharu a sail i gytuno ar newidiadau arni wrth i'r prosiect symud ymlaen.

Gofalwch fod gennych chi'r cyllid yn ei le cyn i chi ddechrau'r prosiect a chytunwch ar y prosesau ar gyfer talu anfonebau.

## Cam 9: Byddwch yn ddiogel

Bydd gan bob prosiect beryglon a fydd â'r potensial i achosi niwed. Felly, dylech gynnal asesiadau risg o debygolrwydd y peryglon hynny a phenderfynu beth fyddwch chi'n ei wneud i leihau'r risg. Mae'r

holl brosiectau adeiladu (mawr neu fach) yn cael eu llywodraethu gan Reoliadau Adeiladu (Dylunio a Rheoli) 2015[3] a gyda phrosiectau bach:

- Dylech fod yn fodlon fod gan eich contractwr y sgiliau, y profiad a'r adnoddau angenrheidiol i wneud y gwaith.

- Dylech fod yn fodlon fod gan eich contractwr Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus.

- Dylech ofyn i'ch contractwr nodi, yn ysgrifenedig, ei gynllun ar gyfer rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r swydd. Cynllun y Cyfnod Adeiladu yw'r enw ar hyn a dylai nodi sut y bydd y contractwr yn rheoli iechyd, diogelwch a lles. Efallai y byddwch am weithio gyda'ch Contractwr i baratoi'r cynllun hwn.

Mae rhagor o fanylion yn nodyn cyfarwyddyd Corff y Cynrychiolwyr, *Prosiectau Adeiladau Eglwysig a Diogelwch*[4].

Dylech barhau i adolygu diogelwch a'i gynnwys fel eitem pryd bynnag y trafodir y prosiect, fel ei fod yn parhau ar flaen meddyliau pobl ac er mwyn lleihau'r perygl o ddamweiniau.

## Cam 10: Monitro ac Adolygu

Lluniwch broses ddiffiniedig ar gyfer cadw llygad ar y prosiect yn ystod y cyfnod adeiladu a byddwch yn glir pwy all roi cyfarwyddiadau i'r contractwr. Ni fydd contractwyr yn hoffi cyfarwyddiadau cymysg ac efallai y byddant yn codi mwy am waith ofer. Dylid trefnu cyfarfodydd cyswllt rheolaidd yn ystod y cyfnod hwn.

Ar ôl cwblhau'r prosiect a bod pawb wrth eu bodd â'r canlyniad, treuliwch amser yn myfyrio ar sut aeth y prosiect a pha wersi y gellir eu dysgu. Trafodwch y rhain yn y cyfarfod Cyngor Plwyf Eglwysig a chofnodwch y casgliadau. Gallant fod yn fuddiol iawn i rywun yn y dyfodol.

Cadwch y cofnodion a'r dogfennau allweddol sy'n gysylltiedig â'r prosiect oherwydd byddant yn fuddiol os bydd unrhyw fwriad i wneud newidiadau yn y dyfodol. Cofnodwch y prosiect yn eich llyfr log a'ch tirlyfr.

Alex Glanville
Pennaeth y Gwasanaethau Eiddo
Yr Eglwys yng Nghymru

Diweddarwyd 3 Medi 2019 (TA)

[3] Mae canllawiau manwl ar y rheoliadau hyn ar gael yn Adran Canllawiau gwefan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn https://www.hse.gov.uk/.
[4] Mae copi o *Prosiectau Adeiladu Eglwysig a Diogelwch* ar gael drwy gysylltu â'r Adran Eiddo yn property@churchinwales.org.uk neu ffoniwch 02920 348200.